Rhifyn Cofia y Parch. John Davies, Alltyplaca.

YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 6] MEHEFIN, 1922. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.

Y PARCH. JOHN DAVIES, ALLTYPLACA.

TEYRNGED GWRANDAWR.

Y DIWEDDAR BARCH. JOHN DAVIES, ALLTYPLACA.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD SAESNEG.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Llandyssul:

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 4s. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

CHANNING HOUSE SCHOOL.

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Boarding and Day School for Girls.

Healthy situation at the top of Highgate Hill. Large Grounds. Work on Modern Public School Lines. Preparation for London University Matriculation.

Apply for Boarding or Day Prospectus to—
Miss ALICE HAIGH, M.A., Head Mistress.

AUTUMN TERM begins SEPT. 19th.

THE STAFF.

Head Mistress—

Miss ALICE HAIGH, M.A. (Manchester).

Resident Mistresses—

Miss A. M. DANIEL, B.A. (Lond.), Honours in History; Teachers' Diploma.
Miss H. K. FRY, B.A. (Lond.), Honours in French.
Miss G. HARKER (Girton), Natural Science Tripos.
Miss M. JAMES, Higher Froebel Certificate.
Miss C. JEPSON, L.R.A.M., A.R.C.M. Miss F. JONES, B.Sc. (Lond.).
Miss D. H. LETTS (Cantab), M.A. (T.C.D.) *(Non-Resident).*
Miss B. MACLAREN, B.A. (Lond.), Honours in Classics.
Miss A. SUTHERLAND, B.A. (University of Wales), Honours in English.
Miss M. TENCH, Bedford Physical Training College.
Miss E. L. WILLIAMS, B.A. (Manchester), Honours in History, Certificate of Social Science, London School of Economics.

Visiting Mistresses—

Miss ADAMSON (Elocution). Miss A. F. BRETTELL (Elocution).
Miss W. GOODING, L.R.A.M. Miss A. GOODWIN, Member of the R.D.S.
Miss HARE (Dancing). Miss M. HOPE, L.R.A.M., A.G.S.M.
Miss I. THOMPSON, L.R.A.M., A.R.A.M. (Singing).

Matron—Miss MAUD MORSON. *Under Matron*—Miss E. JACKSON.

Number of pupils, about 140.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1922. [CYF. XXII. RHIF 6.

AR ADEN FFYDD.

YR HEN WEINIDOG.

'Roedd hwn o anian dyner iawn ;
Un syml a gwladaidd oedd efe ;
Nid oedd 'dan lestr,' i'w ddisglair ddawn,
Yn addas le.
Ym more'i ddydd fe ganfu'r ffaith
Mai cul yw'r porth i wir fwynhâd,
A chlybu wŷs i'w alw at waith
Ei Dad.

Yn llais cydwybod, clywai arch
Y Nef, a chenadwri Duw ;
I'w gorff a'i enaid talai barch
Trwy lanwedd fyw.
Cymeriad pur a chredo seml
Fu swm ei neges ef i'w wlad ;
Pob calon lân oedd iddo'n deml
Ei Dad.

Wrth rodio goriwaered oes,
Fe roddai'n wastad help ei law
I ddi-garegu llwybrau moes
I'r dô a ddaw.
Ym min y nôs y cerddai'n hy'
Wrth ffon ei ffydd, heb fawr lescâd,—
Pan ddaeth y wŷs i'w alw i dy
Ei Dad.

D. CLEDLYN DAVIES.

Y PARCH. JOHN DAVIES, ALLTYPLACA.

Ganwyd Mawrth 31, 1836.
Bu farw Mai 8, 1922.

PAR ambell farwolaeth fwy o syndod a braw na'i gilydd. Un a achosodd gryniad trwy gylch helaeth o'r wlad oedd marwolaeth y Parch. John Davies, Tancoed. Yr oedd mewn oedran gwr pan y mae bron pawb ag sydd yn fyw yn awr yn ei gofio gyntaf. Gwelodd pobl yr oes yma lawer a gawsant eu geni tua'r un amser a hwythau, ac yn ddiweddarach na hynny, yn gwanychu ac yn ymadael a'r fuchedd hon. Ond yr oedd gwrthrych yr ysgrif hon yn dal yn gryf, fel yr oeddem wedi myned i synied am dano fel un oedd a rhyw barhausder eithriadol yn perthyn iddo. Ond er cymaint y nerth a ymddangosai fod yn trigo ynddo, gwnaeth angau ei waith yn gyflym arno, a bu farw yn sydyn prynhawn Llun, Mai 8.

Ganwyd ef yn Nhancoed, Mawrth 31ain, 1836, lle y bu yn cartrefu dros ei fywyd. Wedi iddo benderfynu ceisio myned i'r weinidogaeth, aeth i Ysgol Pontshan, a gedwid gan y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid,—ysgol a fu yn enwog iawn. Pasiodd i fewn i Goleg Caerfyrddin yn 1860, ac arosodd yno hyd 1864. Gwnaeth ddefnydd da o'i fanteision colegawl, ac ymddatblygodd yn gyflym fel pregethwr. Ar derfyn ei dymhor yn yr Athrofa, nid oedd achos iddo ofni bod heb un lle, oblegid awgrymwyd iddo mewn mwy nag un man y byddai ei wasanaeth yn dderbyniol. Derbyniodd alwad oddiwrth Eglwys Alltyplaca, ac yno yr ymsefydlodd yn weinidog, ac yn olynydd i'r Parch. David Evans, Maesymeillion. Ni fu dim rhyngddo a'r Eglwys ynghylch cyflog o gwbl.

Gan y gwyddai nad oedd gobaith am lawer o gyflog, yr oedd yn rhaid edrych allan am foddion cynhaliaeth. Yn ffodus yr oedd eisiau ysgolfeistr yn y Cwrtnewydd. Yr oedd ysgoldy i'w gael yn rhydd yno ond ei fod yn adfeiliedig. Wedi ei adgyweirio drwy gynorthwy cyfeillion, dechreuodd ar ei waith o addysgu plant. Yr oedd Eglwys Onenfawr heb un gweinidog, a gwnaethant apel ato am eu gwasanaethu unwaith yn y mis, yr hyn a wnaeth am dipyn o amser. Yr oedd y pellter tua thair-milltir-ar-hugain.

Yn yr ail flwyddyn o'i weinidogaeth, gwnaeth Eglwys yr Hen Dy Cwrdd yn Nghefncoedcymmer gais ato i fyned yn weinidog arni, gan gynnyg iddo dri-ugain punt y flwyddyn o gyflog, tra nad oedd yn cael ar y pryd ond wyth punt. Gwrthod yr alwad wnaeth.

Nid oedd y gyflog fechan a dderbyniai yn arwyddo nad oedd ei Eglwys yn gwerthfawrogi ei weinidogaeth, canys tystia y tystebau a dderbyniodd fod ei syniad am dano fel pregethwr yn uchel, a'i pharch iddo yn fawr. Ym mhen pymtheg mlynedd wedi ei sefydliad

yn Alltyplaca, anrhegodd yr Eglwys ef â cherbyd. Clywsom yr ofnai ei golli, gan mor dderbyniol yr oedd fel pregethwr, ac mai er mwyn ennill ei serch yn fwy y cymhellwyd hi i roddi y rhodd hon iddo. Ar achlysur cyflwyno yr anrheg hon iddo, canodd Dewi Hefin fel y canlyn :—

"Nid casglu aur a phres
Yw amcan mawr ei fywyd,
Ond ceisio gweini lles
I bawb, mewn duwiol ysbryd ;
Ni ddwg y dysteb hon
Un cufydd at ei daldra,
Ond bydd fel perl ar fron
Hen Eglwys Alltyplaca."

Yr oedd gwasanaethau crefyddol yn cael eu cynal yn achlysurol yng Nghwrtnewydd i'r Undodiaid oedd yn byw yn yr ardal. Y gweinidogion a ddeuent i gynnal y gwasanaethau hyn yno oedd y Parchn. Thomas Thomas, Pantydefaid, a W. Thomas, Llwynrhydowen. Isel ac ansicr iawn oedd yr achos yno y pryd hwnnw. Teimlodd rhai y carent ffurfio Eglwys, a gofynasant i'r Parch. J. Davies a wnae ddod yn weinidog i Gapel-y-Bryn, sef yr Ysgoldy lle y cadwai ysgol. Cydsyniodd yntau a'u cais, a llwyddodd i ffurfio Eglwys yno yn nechreu y flwyddyn 1867. Y Sul cyntaf y gweinyddwyd y cymundeb yno, ymunodd 34 yn gangen o Eglwys Crist.

Yn fuan wedi hyn, cafodd Capel Cwmmwrdu ei ail-agor, a bu Mr. Davies yn myned yno i wasanaethu ar y Sul yn dra mynnych am amryw flynyddau. Hefyd bu yn myned i bregethu yn achlysurol am rai blynyddau i ysgoldy a elwid Pontfanog, ar dir Tyddyndu. Gwelwn ei fod yn egniol ac yn llafurus iawn gydag Achos yr Arglwydd.

Yn 1881 cafodd sylweddoli ei obaith hir-ddisgwyliedig, sef cael tŷ cwrdd newydd yng Nghapel-y-Bryn. Adnewyddwyd Capel Alltyplaca yn 1892, ac yn 1905 adeiladwyd capel newydd yng Nghwmsychbant. Casglodd Mr. Davies tua £1,500 er adnewyddu un capel ac adeiladu dau gapel newydd.

Fel pregethwr yr enwogodd Mr. Davies ei hun fwyaf, a thrwy ei bregethu y gwnaeth fwyaf o waith. Nid oedd neb yn yr enwad a lafuriai fwy nag ef mewn pregethu, a theithio ar hyd a lled y wlad. Ystyrid ef yn anghenraid Cyfarfodydd Chwarterol a Blynyddol. Nid oedd neb ffyddlonach nag ef i'r cyfarfodydd hyn, na neb yn fwy parod i roddi ei wasanaeth ynddynt. Nid oedd ganddo un math arall o uchelgais mewn bywyd ond pregethu, a bod o wasanaeth i achos crefydd. Yr oedd ei iaith yn syml, ond yn goethedig, a'i frawddegau yn drefnus. Yr oedd o ran addull yn araf a gwyliadwrus ei symudiadau, gan ofalu bob amser bod yn eglur. Ni fyddai byth yn delio â materion fyddai yn ddieithr i'r bobl. Ei amcan mawr oedd peri gras i'r rhai a wrandawent arno. Meddai ar gyfuniad hapus o amryw ragoriaethau a'i gwnai yn deilwng o gael ei

restru ym mhlith y dosparth blaenaf o bregethwyr ein henwad, ac hefyd o bregethwyr ein cenedl. Yr oedd ganddo y fath bersonoliaeth prydferth a dynai sylw mewn unrhyw gynulliad. Mae personoliaeth corfforol o'r fath ag oedd ganddo ef yn fantais i ennill sylw cynnulleidfa ar y cychwyn, ac i gael argraff dda arni. Gall personoliaeth urddasol felly, tra yn fanteisiol i ennill serch cynnulleidfa, droi yn anfantais os na fydd pregethwr teilwng o'r fath ymddangosiad y tu ol iddo. Yr oedd Mr. Davies yn llond ei ymddangosiad, fel na byddai neb yn cael ei siomi ynddo.

Yr oedd yr elfen esboniadol yn amlwg ynddo. Gwelid hyn yn ei ragymadrodd. Gweithiai ei ffordd yn araf at ei destun, gan ddangos yr amgylchiadau o dan ba rai y llefarwyd ef, a'i berthynas a'i gyd-destunau, a byddai y testun a'i gysylltiadau yn dod yn eglur ger ein bron.

Elfen arall ynddo oedd naturioldeb. Yr oedd tôn ei lais mor naturiol yn y pwlpud ag wrth siarad ar yr heol. Nid oedd yn newid ei lais yn y pwlpud, ond ei fod yn dyrchafu tipyn o honno pan y caffai ychydig o hwyl, yr hwn a fyddai y pryd hwnnw yn effeithiol iawn.

Nodwedd arall amlwg ynddo fel llefarwr oedd craffder meddwl a gallu i fod yn gymhwys i bob amgylchiad. Nid oedd pwys pwy oedd wedi bod yn pregethu neu yn siarad o'i flaen, na pha mor hwylus bynnag yr oedd wedi bod, yr oedd ef yn sicr o fod yn gymhwys i'r amgylchiad, a pheri i'r dylanwad godi yn uwch. Yr oedd yn sylwedydd craff, a gwelai beth a ddylai Israel wneuthur, ac yr oedd ganddo allu i gymhwyso ei bregethau a'i sylwadau at anghenion a dyledswyddau beunyddiol dynion, fel y teimlid ei fod yn dweyd yr hyn oedd eisiau.

Yr oedd yn dduwinyddol ac athrawiaethol weithiau. Yr oedd yn dduwinydd cryf, a theimlid hynny weithiau pan y byddai yn holi ysgolion, yr hyn a allai wneud yn fedrus a galluog.

Os oedd yn rhagori mewn un peth, efallai mai yn ei allu i wasanaethu mewn angladdau y rhagorai, ac yn enwedig yn ei weddiau ar achlysuron felly. Pregethodd lawer mewn angladdau. Pan y digwyddai fod un o'n heglwysi heb weinidog, efe oedd yn cael ei alw amlaf i'r cylch hwnnw i wasanaethu mewn angladdau. Yr oedd ei weddiau ar amgylchiadau felly yn hynod o gysurol, ac yn gosod ar feddwl dynion yr argraff fod ei ddoniau gweddi yn uwchraddol. Daeth drwy ei wasanaethau mewn angladdau i gysylltiad â llawer heblaw ei bobl a'i enwad ei hun, a chydnabyddid ef gan enwadau eraill yn gystal a'i enwad ei hun yn un o'r pregethwyr mwyaf derbyniol.

Yr oedd, fel y sylwasom, yn dduwinydd cryf, ac yn hyddysg yng ngolygiadau y gwahanol enwadau, ac yn eu rhesymau dros eu golygiadau. Yr oedd wedi codi ei dduwinyddiaeth o'r Beibl, ac nid o lyfrau am y Beibl, yn y ffurf o esboniadau. Yr oedd wedi gwneud astudiaeth dda o'r efengylau a'r epistolau, a meddai ar gôf da, fel nad oedd yn ein henwad neb cryfach nag ef i roddi "rheswm am

y gobaith oedd ynddo," a sefyll dros y Ffydd Undodaidd. Y gallu hwn o'i eiddo yn ddiau a gyfrifai iddo gael ei gyflogi gan y *British and Foreign Unitarian Association* i ddarlithio ar y ffydd Undodaidd mewn gwahanol fannau yn Neheudir Cymru. Bu yn traddodi darlithiau amryw o weithiau yn Tonypandy, Treorci, Llanelli, Dowlais a Rhymni. Cafodd bob chwareu teg a charedigrwydd yn y mannau hyn, gydag eithrio Llanelli. Bu yn rhaid iddo ffoi am ei fywyd yno.

Pan wedi gorphen deugain mlynedd yn y weinidogaeth yn Alltyplaca, gwnaeth yr Eglwys ddathlu yr achlysur mewn modd teilwng o honi ei hun ac o'i gweinidog parchus. Dydd Iau, Gorphenaf 30, 1904, daeth cynulliad anrhydeddus ynghyd i Alltyplaca. Cyflwynwyd Anerchiad goreuredig ynghyd â chodaid o aur i Mr. Davies. Wrth ddiolch, dywedodd yntau pe buasai yn cael byw ei fywyd drosodd drachefn na ddewisai ddim yn well na chael bod yn weinidog Alltyplaca. Bu llawer o weinidogion yn siarad yn y cyfarfod hwn. Yr oedd Dr. J. Gwenogfryn Evans, M.A., wedi dod o Rydychain yn arbennig er mwyn bod yn bresennol i ddangos ei edmygedd a'i barch o'i hen gyfaill a'i weinidog, a gwnaeth anrhegu Mr. Davies â llawffon hardd.

Rhoddodd yr Eglwysi Undodaidd Cymreig bob anrhydedd arno ag y gallent. Bu yn Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru. Anrhydeddwyd ef hefyd yn nghylchoedd ei blwyf. Cafodd ei ddewis yn aelod o'r Bwrdd Ysgol cyntaf yn Llanwenog, a bu hefyd yn Henadur ar Gynghor Sir Ceredigion.

Ymneilltuodd o'r weinidogaeth yn niwedd y flwyddyn 1915, ar ol bod ynddi ddeuddeg a deugain a hanner o flynyddau. Ni adawodd eglwysi ei ofal iddo ymddeol heb amlygu eu gwerthfawrogiad o'i weinidogaeth faith a llwyddiannus, ac mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Alltyplaca, Ebrill 24, 1916, ac yng Nghapelybryn, drannoeth, cyflwynasant iddo godau o aur.

Ni roddodd i fynu i bregethu pan yr ymneillduodd o fugeiliaeth ei eglwysi, ac ni pheidiodd cymeryd dyddordeb yn yr achos y bu ef yn llafurio cymaint drosto. Pregethodd wedi hynny mewn Cyddau Chwarterol, ac ar y Sul, ac mewn angladdau. Nid oedd ond tua dau fis oddiar pan y bu yn cyflawni yr oll o'r gwasanaeth mewn angladd. Bu yn ein Cyfarfodydd Chwarterol yn Llandyssul ym mis Ebrill diweddaf, ac fel ei arfer, yr oedd yno y noson gyntaf. Cymerodd ran yn un o'r cyfarfodydd, ac ni chlywsom ef yn fwy effeithiol erioed.

Cafodd oes faith, ond nid oedd yn hen a methedig. Nid yr un pryd y mae pawb yn myned yn hen. Â rhai yn hen yn gynar, tra y parhä eraill yn hwy i beidio heneiddio. Er ei fod wedi cael hir oes, eto nid oedd yn eiddil a llesg. Y Sul cyn ei farwolaeth yr oedd yn y gwasanaeth yng Nghapelybryn ac Alltyplaca, a chlywsom ef yn cymeryd rhan yn y gân. Bu farw yn ei waith, a bydd colled a bwlch mawr ar ei ol.

Teimla ysgrifennydd y llinellau hyn ei fod wedi colli amddiffyn

gwerthfawr. Yr oedd ei fod ef yn y lle yn nerth a chalondid i mi; a phan y bu efe farw, teimlais fod y pren roddodd ei gysgod droswyf am chwech o flynyddau bellach wedi syrthio.

Yr ydym yn gorfod sylweddoli ein bod wedi colli amryw a gyfrifem yn gedyrn yn ein pwlpud ni, ac yr ydym yn barod i ofyn, pa beth a wnawn ni? Clywais am ymddiddan a gymerodd le rhwng Christmas Evans a phregethwr arall o'r enw Robert Owen, Llanrwst, gweinidog gyda'r Methodistiaid. Yr adeg honno yr oedd amryw o wyr enwog ym mysg y Methodistiaid wedi eu cymeryd ymaith, ac meddai Christmas Evans with Robert Owen, "Wel, Robert, beth a wnewch bellach? Yr ydych wedi myned yn hynod o fân. Mae yr hoelion wyth wedi ymadael i gyd; wnewch chwi fawr o honi mwy." "O na, nid felly, Christmas," meddai Robert Owen, "mae y *nailer* heb adael y siop eto, a ni gawn hoelion wyth eto, Christmas." Ac onid gwir a ddywedodd yr hen bregethwr? Mae Duw wedi gofalu am Ei Achos erioed, ac wedi codi Josua yn lle Moses, Solomon yn lle Dafydd, ac wedi amwisgo Eliseus ym mantell Elias. Ein cysur yw y gwna efe eto fel y mae wedi gwneud yn y gorphenol, ac y gallwn obe thio am gael dynion teilwng i lanw y bylchau.

Claddwyd y rhan farwol o honno, prynhawn Gwener canlynol, ym mynwent Capelybryn. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, Capelybryn, a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. T. Cennech Davies, Brynteg. Cychwynwyd yr orymdaith tua'r Capel yr oedd yn angladd gwir anrhydeddus. Wedi cyraedd y Capel, darllenwyd gan y Parch. D. Conwil Evans, Rhydygwin. Llywyddwyd y gwasanaeth gan Weinidog y lle, a darllenwyd ganddo amryw o lythyrau oedd wedi cael eu derbyn oddiwrth rai na allent fod yn bresennol, un o ba rai oedd oddiwrth y Parch. R. J. Jones, M.A., Abe dar, yr hwn oedd yn gyfaill mawr i Mr. Davies, ac wedi bod yn cyd-lafurio âg ef am gyfnod maith. Siaradwyd gan y Parchedigion canlynol:—Lewis Williams, Capelybryn; R. C. Jones, Llanbedr; D. Evans, Cribyn; T. A. Thomas, Llandyssul; E. O. Jenkins, Llwynrhydowen; T. O. Williams, B.A., Brondeifi; E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd; D. Morris Jones, Drefach; D. James, Rhydybont, a D. C. Griffiths, Aberduar. Gorphenwyd y gwasanaeth drwy weddi ar lan y bedd gan y Parch. T. A. Thomas, Llandyssul. Yr oedd yn bresennol hefyd y Parchn. D. G. Rees, Gellionen, ac Ivor Roberts, curad, Llanwenog. Cyfeiliwyd ar yr organ gan Miss Pugh, Brynrgranod, a chwareuwyd y *Dead March* ganddi ar y diwedd.

Mae un chwaer i Mr. Davies yn aros ar dir y byw, sef Mrs. Mary Evans, Cilgwyn-uchaf, Llangybi, yr hon sydd yn 88 mlwydd oed. Gadawodd ar ei ol yn Nhancoed, Mr. John Jenkins (nai); Miss Jenkins a Miss Sarah Jenkins (nithoedd).

Bellach y mae efe mewn gwlad arall, a theimlwn y ddaear yn wâg hebddo.

L. W.

TEYRNGED GWRANDAWR.

Dim ond nawn a hwyrddydd bywyd y diweddâr Barch. John Davies, Alltyblaca, a welais i. Yr oedd cornant nwyfus ei ieuenctid wedi ymlonyddu ar ddol-diroedd canol oed, cyn i mi gael yr olwg gyntaf ar afon risialaidd ei yrfa. Ymddolennai llif ei fywyd eisioes yn araf a thawel tua chyffiniau henaint, ac fe ddoi llanw o ysbrydiaeth i fyny'r moryd i'w gyfarfod, ymhell cyn ymarllwys ohono yn derfynol i fôr y tragwyddoldeb mawr. Goiffennodd ei gwrs addysg yng Ngholeg Henaduriaethol Caerfyrddin unarddeg o flynyddoedd cyn fy ngeni i, ac fe roddes i fyny y swydd o ysgolfeistr cyn cof gennyf.

Cefais, er hynny, y fantais o'i glywed yn pregethu gannoedd o weithiau, a bum mewn cysylltiad personol agos ag ef yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf; felly pleser calon gennyf ydyw cael gosod deilen fechan o'm gwerthfawrogiad yng nghoronbleth YR YMOFYNYDD i'w goffadwriaeth.

Nid oedd Mr. Davies yn gymeriad amryddawn, a byddai rhestr o'r pethau na chymerai ddim diddordeb ynddynt yn un faith; yn wir, fe gynhwysai honno ymron yr oll o'r materion gwacsaw y sydd o ddydd i ddydd yn llanw colofnau ein newyddiaduron. Nid oedd gan hyd yn oed farddoniaeth ond ychydig o swyn iddo, a pho fwyaf hyfforddiadol ei hansawdd, goreu i gyd ganddo. Y mae'n fwy na thebig mai am y rheswm hwn y rhoddai le blaenllaw i feirdd a ystyrir yn gyffredin fel rhai canolig, ac y meddyliai yn uchel am boetau Seisnig y ddeunawfed ganrif, yn enwedig am Alexander Pope. Ar ol fy ymgyrch yng Nghorwen yn 1919, y dull ymarferol a gymerth Mr. Davies i'm llongyfarch ydoedd drwy fy anrhegu â dwy gyfrol o weithiau awdur yr "Essay on Man."

Mewn rhyddiaith hefyd, nid hoff oedd ganddo weithiau'r dychymyg; carai yn hytrach draethawd neu bregeth yn ymdrin â rhyw athrawiaeth ddyfn-ddysg, ac argymellai fi weithiau i ddarllen rhyw lyfr diwinyddol newydd o'i eiddo, yn Saesneg, fynychaf. Er mwyn ei blesio, cymerwn innau'r gyfrol a darllennwn hi, ond nid heb "scapo lot," ys dywed y plant. Fe wyddwn i, fodd bynnag, ei dâst ef yn rhy dda i ofyn ganddo ddarllen y pethau a flasiwn i yn fawr; ac felly, yn bur anaml y byddai ef a minnau yn brigbori ar yr un meysydd llenyddol.

Un o arwydd-eiriau ei fywyd ydoedd hwn—"Nid da *rhy* o ddim," a nodwedd hoffusaf ei fuchedd ydoedd y gofal mawr a gymerai i osgoi *rhy*, neu ormod, ymhob dim. Y mae lle i gwyno er hynny iddo fod trwy ei oes yn rhy gynnil gyda phethau y gallasai ein difyrru a'n llesoli trwy eu defnyddio, sef yn rhy gynnil gydag inc a phapur. Gresyn na buasai wedi rhoddi tro'n amlach ar hyd y llwybrau hyfryd a gedwir yn goch hyd heddyw gan ei hen gyfaill annwyl, yr Hybarch R. J. J.

Na, nid cymeriad amryddawn mo'r "Hen Alltyblaca;" llenwid ei fryd gan *bregethu*, yn anad dim, a chymaint ydoedd ei sel a'i ymroad yng ngwasanaeth y pulpud fel y daeth yn un o feistriaid hyotlaf ein cynulleidfaoedd. O gorff tal, lluniaidd a chydnerth, doniwyd ef hefyd â llais eglur a soniarus; ac mewn llawer oedfa rymus a chofiadwy, fe dywalltwyd bendithion argyhoeddiad yn helaeth ar ei wrandawyr drwy gyfrwng ei hyawdledd. Yn nyddiau cynnar ei weinidogaeth, pregethai yn lled faith, a dywed fy mam y byddai y pryd hwnnw yn cymryd rhyw ddeugain munud neu ragor o amser i draddodi ei genadwri bob Sul. Yn ei flynyddoedd olaf, rhyw chwarter awr a gymerai, a siaradai yn aml

"dros y fraich," hynny yw, heb unrhyw nodiadau. Epistolau Paul oedd y maes lle y cai y rhan fwyaf o'i destunau, a byddai o leiaf hanner ei bregethau o ansawdd athrawiaethol. Gwyliais ef lawer gwaith yn dwyn magnelau ymresymiad ar ol ymresymiad i bwnio ar geyrydd trindodiaeth, ac i chwilfriwio muriau Calfiniaeth ac uniongredded. Pan anerchai gynulleidfa gymysg, fodd bynnag, gallai daro tant cymodol, a cherdded yn ddi-dramgwydd ar ben y clawdd ffin diwinyddol.

Yn ei ddarlleniad o emynau'r cysegr, rhoddai fynegiant godidog i feddyliau'r awduron, ac yr oedd ei glywed yn "rhoi allan" rai o eiriau yr hen Iolo yn foddion grâs mewn gwirionedd. Ond yn y weddi, yn anad dim, yr oedd ei gryfdwr. Gannoedd, do, filoedd o weithiau, fe fu gweddi yr "Hen Alltyblaca" fel cawod ar sychtwr mewn oedfaon lledfyw, ac fel heulwen ar ddrycin mewn angladdau galarus.

Hyd ddiwedd eithaf ei einioes, mynychai'r oedfaon yng Ngalltyblaca a Chapel-y-Bryn yn ddifwlch bob Sul, ac ni roddai dim fwy o boen iddo na'r difrawder crefyddol a adawwyd fel malltod ar ein gwlad gan y Rhyfel Mawr. Credai yn ddiysgog yn effeithiolrwydd "ffolineb pregethu" i lesoli'r ddynoliaeth, ac ystyriai fynychiad cyson o *ryw le o addoliad* yn beth canmoladwy. Byddai hynny, yn ol ei farn ef, yn sicr o wneuthur y byd yn well lle i fyw ynddo, ac ni all neb roddi mwy o barch i'w goffadwriaeth na thrwy ddilyn ei esiampl ef yn hyn o beth.

"Doe neu echdoe yr oedd cyn wyched gwr a ninnau; ond fel y mae ef yr awron, y byddwn oll ar fyrder.'

CLEDLYN DAVIES.

Y DIWEDDAR BARCH. JOHN DAVIES, ALLTYPLACA.

Trist ydyw meddwl nad ydyw y Parch. John Davies i'w gyfarfod mwy yng nghydgynulliadau eglwysi Alltyplaca, Capel-y-Bryn, a Chapel-y-Cwm, yng nghyfarfodydd chwarterol a blynyddol yr enwad, yng nghymanfaoedd ysgolion a cherddorol y cylch. Pwy gofia am dano yn absennol yn un o'r cyfryw? Cwyd llawer tôn o hiraeth wrth weled ei le yn wag mewn cynifer o gylchoedd. Yr oedd efe yn batriarch yn ein plith, ac er wedi rhoddi heibio ofal y weinidogaeth er's chwech mlynedd, eto ni roddodd heibio y gwaith, eithr glynodd wrtho hyd y diwedd. Daethai i'r cyrddau chwarterol diweddaf yn Llandyssul, ac oherwydd prinder pregethwyr y noson gyntaf, yr oedd yn barod i bregethu, os angen am hynny. Aeth drwy y rhannau defosiynol y boreu dilynol yn ei ffordd anghydmarol ei hunan. Diwrnod cyn ei farwolaeth yr oedd yn y gwasanaeth yn Nghapel-y-Bryn yn y bore, ac yn Alltyplaca yn y prydnawn, ac yn ol ei arfer cerddai yr holl ffordd. Teimlir yn chwith gan gylch helaeth ei gydnabod, na cheir gweled yn y pwlpud mwy un oedd a'i osgo mor bendefigaidd, ei oslef mor urddasol a'i iaith mor glasurol. Ac wrth osod blodyn ar ei fedd, yn gystal a hogi'n harfau ar ei faen, ni fedrwn wneud dim yn well na dyfynnu ysgrif ei hen gyfaill am dano—y diweddar Parch. William James, Llandyssul.

"Ganwyd Mr. Davies Mawrth 31, 1836, yn Tanycoed, ffermdy bychan

ar lan y Cledlyn yn mhlwyf Llanwenog, Ceredigion, bron ar bwys Brynllefrith, lle y treuliodd Dafydd Llwyd, gweinidog cyntaf Alltyplaca, y rhan fwyaf o'i oes, ac nid pell o Goedlanau, lle y ganwyd ef. Enwau ei rieni oedd John a Rachel Davies. Fel ereill sydd wedi gwneyd eu hol er daioni yn y byd yma, priodolai Mr. Davies lawer o'r hyn oedd oreu ynddo i addysg ac esiampl ei fam. Yr oedd hi yn enedigol, os nad ydym yn camsynied, o ddyffryn Aeron, lle y cafodd ei dwyn i fyny yn swn pregethau John James a Dafydd Jenkin Rhys. Fel canlyniad, gwnaeth yn eiddo iddi ei hun elfenau goreu Undodiaeth fel y pregethid hi tua dechreu'r ganrif. Yn ddiamheu, yr oedd y berthynas rhwng y fam a'i mab yn un annwyl a phrydferth, ac yr oedd eu cydymdeimladau crefyddol yn eu dwyn yn nes at eu gilydd o flwyddyn i flwyddyn. Clywsom Mr. Davies flynyddau yn ol yn ei oriau o anobaith, yn wyneb ymosodiadau dinystriol y beirniaid, yn dweyd fod yr hen Feibl ag y dysgodd ef lawer o'i wersi ar liniau ei fam yn mron colli ei afael ar y byd. Daeth Mr. Davies wedi hyn i weled mai yr hen syniadau am y Beibl oedd wedi colli eu gafael, ac nid y Beibl ei hun."

"Rhyw addysg afreolaidd gafodd ef yn more ei oes—yn yr ysgol gyda hwn yn awr, gyda'r llall bryd arall, fel yr oedd ysgolfeistri yn newid ac yn symud. Nid ydym yn cofio enw ond un o'i ysgolfeistri yn y tymhor hwn, sef y Parch. David Jones (Dewi Elfed), gweinidog y Bedyddwyr yn Cwrtnewydd, yr hwn a aeth wedi hyny i'r Amerig. Bob yn dipyn cafodd ei osod yn egwyddorwas gyda dilledydd yn y gymydogaeth; ond fel Gwilym Marles gyda'r esgidiau, yr oedd ei ddwylaw yn ceisio ymwneyd a'r dilledyn, tra yr oedd y meddwl yn crwydro yn mhell oddiwrtho. Pregethu a phregethwyr oedd ei hoff bynciau, a gwelid yn fuan oddiwrth ei ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sul yn Alltyplaca, a'r dyddordeb byw a deimlai yn mhobpeth a berthynai i'r achos yno, ei fod wedi ei nodi allan ar gyfer rhywbeth heblaw dyogelu tai allanol pobl. Ond *bigitian* a'r gwaith hwn fu ef (ys dywedodd Kilsby) am flynyddau, hyd nes i amgylchiadau ffafriol i droi ei wyneb yn benderfynnol at y weinidogaeth. Aeth i ysgol enwog Pontshan ar yr ail o Fawrth, 1858, ac i fysio yn mlaen, derbyniwyd ef i Goleg Caerfyrddin yn Mehefin 1860. Ennillodd le neillduol yn serch yr athrawon yno. Gwelent ei fod yn fyfyriwr oedd o ddifrif gyda'i waith, a'r gwaith hwnw ar gyfer un amcan. Ceisiodd gwrteithio a'i holl egni y myfyrdodau hyny a fuasent yn fwyaf defnyddiol iddo fel gweinidog, megis diwinyddiaeth ac athroniaeth, a dangosodd fod ganddo gymhwysderau neillduol at y ganghen ddiweddaf. Ac ymddengys yn ystod ei holl yrfa fod y ddawn athronyddol yma wedi bod yn un o'i nodweddion neillduol fel pregethwr. Yr oedd ei bregethau bob amser yn esiamplau o allu dadansoddol (*power of analysis*). Trefnai ei fater bob amser o dan raniadau priodol. Nid oedd un rhaniad yn myned ar draws y llall, ond pob dernyn yn berffaith, yn *clear-cut* ar ei ben ei hun. Edrycher hefyd ar bynciau ei brif bregethau. Yr oedd rhyw edefyn o athroniaeth yn rhedeg trwyddynt, ac yn eu gosod mewn dosparth ar eu pennau eu hunain. Cofiwn rai o honynt, megys "Deddf a maddeuant," "Telerau maddeuant," "Yr Ymgnawdoliad," &c. Sylwer hefyd ar y dull yr ymwnelai a'r Beibl. Mae rhai yn edrych arno fel copi o'r meddwl Dwyfol, ac yn awdurdod anffaeledig yn holl diriogaethau ffydd ac ymarferiad. Edrycha ereill arno oddiar safle Ieithyddiaeth (*Philology*). Er y medrai Mr. Davies ddarllen ei Feibl Hebraeg a'i Destament Groeg yn ddigon rhwydd, ni chlywsom erioed mo honno yn son am yr ieithoedd gwreiddiol, fel mae arfer rhai. Yr oedd *Logos*, *ilasmos*, ac *ilasterion*, *&c.*, mor aml yn ngeneuau yr hen broffwydi ag Amen. I ereill wed'yn mae y Beibl o bwys oddiar safle

Beirniadaeth, a charant son am yr haenau amrywiol sydd yn gwneyd i fyny adeiladwaith y Pum' Llyfr; dospartbant y Salmau yn ol eu cyfnodau, a phriodolant rai o lyfrau godidocaf y Beibl i awduron mawrion anadnabyddus. Mae gwerth y Beibl yn apelio at ddynion tebyg i Matthew Arnold fel llenyddiaeth cenedl. Gosodant yn eu cloriannau farddoniaeth felus y Salmau, ehediadau seraffaidd Esaiah, arucheledd Job, acenion anobaith y Pregethwr, geiriau dwyfol Iesu Grist, emyn cariad yr Apostol Paul, a gweledigaethau rhyfedd ac ofnadwy llyfr y Datguddiad, a cheisiant roddi iddynt eu gwerth cymhariaethol wrth ochr cynnyrchion llenyddol y byd. Nid ydym yn deall fod Mr. Davies wedi gofalu rhyw lawer i edrych ar y Beibl yn un o'r dulliau yma. Carai ei astudio oddiar safbwynt athroniaeth crefydd, fel yn cofnodi profiad crefyddol y genedl gyfoethocaf ei doniau crefyddol a welodd y byd erioed. Edrychai yn ei oleuni ar syniadau crefyddol yn graddol ymddadblygu, nes yr addfedant yn gynhauaf gogoneddus yn mywyd ac addysg Iesu o Nasareth. Mae y Beibl yn y modd hyn yn cymeryd ei le fel yr elfen bwysicaf yn addysg yr hiliogaeth, ac o'r safle yma mae yn gwasanaethu fel y cynnorthwy goreu i'r pregethwr."

"Yn 1875, daeth i gyhoeddusrwydd neillduol trwy iddo gael ei bennodi yn gennadwr y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor. Treuliodd flwyddyn lafurus yn teithio ac yn pregethu mewn gwahanol fanau yn Neheudir Cymru. Mae y drinaeth a gafodd yn Llanelli yn wybyddus i bawb; ac nis gall yr amgylchiad fod yn beth dymunol i'w adgofio gan Ymneillduwyr y lle gyda'u holl dwrw am gydraddoldeb, pan nad oeddent y pryd hwnw, gan nad beth ydynt yn awr, wedi dysgu egwyddorion elfennol rhyddid crefyddol. Er gwaethaf pob gwrthwynebiad, cafodd yr had da ddyfnder daear mewn llawer man, ac mae ambell i gynhauaf wedi ei fedi oddiar hynny ar y maes hwn am fod yr "arall" yma wedi llafurio. Yn 1881—82, adeiladwyd capel newydd yn Cwrtnewydd, a gorphwysodd y baich o gasglu gan mwyaf ar ysgwyddau y gweinidog. Llwyddodd i sicrhau dros £700, ac os ydym yn cofio'n iawn, agorwyd y capel, fel mae'n rheol braidd gan yr Undodiaid, yn ddiddyled. Cafodd Alltyplaca ei adnewyddu yn 1892, a chasglodd Mr. Davies at hwnw ryw £400."

Yn 1896, dechreuodd gynnal cyfarfodydd yn Cwmsychbant, gan fod amryw aelodau o'r ardal hon yn arfer cyrchu i Gwrtnewydd, ac yn ddiweddarach ffurfiodd eglwys yno, ac yn 1907, adeiladwyd capel tlws ynghyd a mynwent helaeth, yr hon, fel yr eglwysi eraill sydd dan ofal ei olynydd, y Parch. Lewis Williams. Gellid dweyd yn ddibetrus wrth edrych dros y maes y gweinidogaethodd ynddo cyhyd, fod ei ymdrechion wedi eu coroni a llwyddiant mawr.

"Ar derfyniad ei yrfa yn y Coleg yn haf 1864, cafodd alwad adref i fod yn weinidog yn Alltyplaca, ac o aagenrheidrwydd gorfodwyd ef, fel pob gweinidog y pryd hwnnw, i agor ysgol yn Cwrtnewydd, lle y cyfranodd addysg am flynyddau i ugeiniau yn rhad ac yn effeithiol. Pregethai yn achlysurol, mewn undeb ag ereill, yn Capel y Bryn hyd 1867, pryd y ffurfiwyd eglwys yno, ac y galwyd Mr. Davies i fod yn weinidog arni. Trigiannai yn ei hen gartref genedigol hyd ei farw, ac yr oedd iddo barch dwfn trwy yr holl wlad fel dyn ac fel gweinidog defnyddiol a llwyddiannus."

"Gyda golwg ar Mr. Davies fel pregethwr, yr ydym am gywiro rhai argraffiadau gau a fynwesid gan rai pobl. Mae wedi cael ei ddweyd ambell waith nad oedd Mr. Davies ddim yn Undodwr o gwbl. Cofiwn yn dda, flynyddau yn ol, i ni draddodi pregeth un Sul, ag oedd dipyn allan o'r cyffredin fel ymosodiad ar syniadau iawnffyddol. Yr oeddem ar y *war path* y diwrnod hwnnw. Daeth dyn atom ar ol y cwrdd, i ddiolch am y bregeth, a dywedodd, gyda llaw, mai

dyna'r tro cyntaf erioed iddo ddeall ein bod yn Undodwr. Beth oeddem cyn hynny, ni chawsom wybod. Yn enw hyd a lled, dyfnder ac uwchder Undodiaeth, yr ydym yn gwrthdystio yn erbyn culni o'r fath hyn. 'Roedd y dyn hwn wedi arfer clywed trwy ei oes ryw un wedd o Undodiaeth yn cael ei phregethu, a chredai mai honno oedd y cwbl. Yr un modd yr oedd hi wedi bod gyda Mr. Davies. Yr ym yn addef ei fod yn sefyll ar ei ben ei hun yn mhlith ei frodyr mewn llawer o bethau. Nid oedd ef yn gopi o neb arall, a pherchid ef am ei ddull gwreiddiol a naturiol ei hun o osod ei genadwri o flaen y byd. Ond mae'r Undodiaeth sydd yn cynnwys Channing a Parker, Martineau a Hereford, Gordon ac Armstrong, Gwilym Mailes ac Owen Evans, yn ddigon eang i'w gynnwys yntau hefyd, heb fod un cam yn cael ei wneyd a'i therfynau"

"Meddai dosparth arall wedyn—Os oedd Mr. Davies yn Undodwr, Undodwr hen ffasiwn oedd, yn perthyn i'r oes o'r blaen. Choeliwn ni fawr o bynny chwaith. Credwn fod y sylw hwn i'w briodoli i'r ffaith fod Mr. Davies wedi arfer, i raddau pell, i osod pwys ar wedd gadarnhaol Undodiaeth—gwedd nad yw yn amrywio rhyw lawer o oes i oes. Cennadwri rhai yw dynoethi a dinystrio hen gyfeiliornadau, ac maent yn cael eu hanrhydeddu fel proffwydi gwell amser i ddyfod. Cennadwri ereill yw tynu i lawr er mwyn adeiladu, gyda phwyslais ar yr "adeiladu." Un o'r rhai diweddaf oedd Mr. Davies. Yr oedd fel y dywedai Dr. Holmes am Emerson, yn *iconoclast without a hammer*—"delw-ddrylliwr heb forthwyl." Nid oedd yn ergydio ac yn darnio ar bob llaw fel oedd ambell un pan yn ymosod ar yr eilunod ag mae pobl yn addoli; ond aethai oddiamgylch yn dawel, ac yr oedd y delwau wedi'r cwbl, yn cael eu symud a'u taflu i'r waudd a'r ystlumod. Pregethai Mr. Davies, rhyw dro, mewn capel iawnffyddol, yr hwn oedd yn digwydd bod heb weinidog. Ei bregeth oedd yr un adnabyddus honno o'r Philipplaid 3: 9—"Ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun," &c.—pregeth Undodaidd o'r iawn ryw. Cafodd y gynnulleidfa ei boddloni yn anghyffredin gan y pregethwr dieithr, a thystiolaeth rhai oedd ei fod yn un o'r *supplies* goreu oeddent wedi sicrhau oddiar pan yr aeth y pwlpud yn wag. Dyna beth ydwyf fi yn feddwl wrth symud yr eilun yn ddystaw a thawel heb yn wybod braidd i'r rhai oedd yn ei addoli. Yn y bregeth ddiweddaf a glywsom gan Mr. Davies, gosododd wedd mor resymol ar droedigaeth Paul pan yn myned o Jerusalem i Damascus, a hynny gyda chyffyrddiad mor ysgafn, medrus, a naturiol, fel y teimlem yn sicr nad oedd braidd ond ychydig wedi sylwi fod yr hanes yn yr Actau wedi ei daflu o'r neilldu, a Mr. Davies wedi cymeryd y rhyddid i esbonio'r cyfnewidiad yn ei ffordd ei hun. Un sylw craffus o'i eiddo nas gallwn beidio ei grybwyll yw hwn: "Ariaeth, mewn gwirionedd, ydyw athrawiaeth y rhan fwyaf o'r Testament Newydd; ond beth dâl son, 'does dim synwyr ynddi." Gwnaed y sylw hwn er ys blynyddau bellach, cyn fod beirniadaeth y Testament Newydd wedi cyrraedd ei phwynt presennol. Cawsom gipdrem pwy ddydd ar *Oes Apostolaidd* Weizsäcker, ac mae'r awdwr galluog hwnnw, yn gystal a phob peth arall ydym wedi ddarllen oddiar hynny hyd yn awr, yn cadarnhau ei wirionedd. Ond ni fuasai un Undodwr o'r hen ffasiwn yn euog o ddweyd peth mor chwyldroadol a hyna."

Ac mewn gwirionedd y *test* priodol i'w gymhwyso at weinidog yw, nid faint o ysgolhaig yw; nid a ydyw yn gynefin a'r clasuron, y gwyddorau, ac athroniaeth, &c. Y pwnc mawr yw, a fedr ef gyrraedd calonau pobl? A wnaiff ef i ambell un deimlo fod digon o neirth yn ei eiriau i newid cwrs ei fywyd, ac i ddwyn yr hwn oedd ymhell yn agosach ato ei hun ac at Dduw? Cymhwyswn at Mr. Davies y *test* hwn o ddylanwad y pregethwr yn y pwlpud ac allan o'r pwlpud, a chawn allan ei fod wedi

bod yn wir weinidog crefydd, yn wir gymwynaswr ei gyd-ddynion, ac yn addurn i'r enwad y perthynai iddo am yn agos i driugain mlynedd. Ni phroffesai ei hunan yn ysgolhaig, yn llenor, yn feirniad Beiblaidd nac yn wleidyddwr; ac ychydig iawn geisiodd wneud yn y cyfeiriadau hynny. Bu ei galon yn ei waith fel pregethwr a gweinidog, ac y mae hynny yn esbonio yr effaith neillduol gafodd ei eiriau dro ar ol tro ar ei wrandawyr. Os y cawsom ni erioed ein dwyn yn agosach ar rai adegau na'u gilydd at y Presenoldeb Dwyfol, yr ym yn sicrmai un o weddiau rhyfeddol Mr. Davies oedd yr aden a'n cludodd ni yno. Clywsom ef yn siarad yn y man mwyaf cysegredig ar y ddaear, uwchben bedd cyfaill, a theimlem rhyw oleuni dwyfol yn treiddio trwy lyn y cysgodau, y bedd yn diflannu o'r golwg, yr hyn oedd farwol yn cael ei lyngcu i fyny gan fywyd, a'r enaid yn cael ei ddwyn, fel pe byddai, i gyffyrddiad newydd â sylweddau bywyd anherfynnol dyn, a nerthoedd y byd a ddaw.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD SAESNEG.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y South East Wales Unitarian Association dydd Llun, Mai 8fed, yn Highland Place, Aberdar. Yr oedd y cynnulliadau yn lluosog a'r cyfarfodydd i gyd yn llwyddiannus. Cyfarfod busnes am 11; pregeth am 3.30. Darllenodd a gweddiodd y Parch. E. T. Evans, yn awr o Ferthyr, a thraddodwyd y bregeth gan y Parch. J. Tyssul Davies, B.A., Llundain. Testun: Exodus xvii. 2—"A phan godai Moses ei law, y byddai Israel yn drechaf; a phan ollyngai ei law i lawr, Amalec a fyddai drechaf." Darllener y bennod. Nid yw'r hyn a ganlyn ond

Crynodeb o'r Bregeth.

Yr oedd geiriau'r testun, ebe Mr. Davies, yn symio i fyny sylwedd ei bregeth. Gofynnai Duw i ni godi i fyny ein llaw, fel y byddai i ddaioni a chyfiawnder a gwirionedd lwyddo. Ar y foment bresennol mae i'r geiriau ddyddordeb neillduol i ni, gan eu bod mewn ffordd o ddameg yn awgrymu swyddogaeth yr eglwys Yr oedd y frwydr yn mynd ymlaen yn barhaus—brwydr rhwng y da a'r drwg, gwirionedd a chelwydd, ac fe ddyry'r testun gyfarwyddyd dwyfol, gyda golwg ar y pa fodd i gario'r frwydr yn mlaen. Ni ofynid i'r eglwysi gytuno ar ryw brogram gwleidyddol neu foesol. Gofynnid i ni ddal wrth ein undeb ysprydol. Yr oeddem yn un yn ein sylwedd moesol. Ni fu erioed amser pan oedd mwy o angen un wir eglwys, ac ni fu gogoniant yr eglwys erioed ar drai mor isel. Mae'r eglwys ym mhob man yn yr anhawstra mwyaf gyda golwg ar y sut i gadw ym mlaen; sut i fodoli o gwbl; sut i ochelyd meth-daliad. Yr oedd rhai eisoes wedi methu dal. Yr oedd efe yn Llundain yn fynych yn pasio rhai na fuont erioed mor llawn ag ydynt yn awr, canys yr oedd un adeilad wedi ei droi yn *shop* celfi ac un arall yn *Cinema*. Yr oedd yr olwg yn drist iddo ef. Nid oedd efe, fodd bynnag, ddim yn mynd i achwyn nad oedd yr un genadwri ddwyfol yn y *Cinema;* nad oedd storio celfi ddim yn cyflawni unrhyw swyddogaeth ddwyfol; nad y cyfryw oedd y

jobs y darfu i ryw saer neillduol geisio gan bysgotwyr i ordro *down tools*. Y mae Harold Begbie ("The gentleman with a duster") yn ei "Painted Windows," yn gofyn paham mae'r eglwys yn y fath gyflwr peryglus. a sut yr oedd wedi colli sylw dynolryw. Ai am nad oedd ganddi ddim i'w roddi, dim i'w ddysgu? Cydnabyddid nad oedd y rhyfel ddim wedi dinystrio'r eglwys, ond yr oedd wedi dangos aneffeithioldeb yr eglwys. Methiant yr eglwys, meddai Mr. Begbie, oedd nad oedd yn cadw i fyny gyda gwyddor. Beth ddigwyddai pe ceisiem gadw yn mlaen yr arferion a ffynnent gan mlynedd yn ol ynghylch anianeg, iechydiaeth, &c. Dyna geisiai'r eglwys wneud gyda chrefydd. Teimlai'r eglwys lai ym mherthynas i wirionedd nag a deimlai gyda golwg ar gynnal a chadw hen syniadau duwinyddol oeddynt mewn bri gan mlynedd yn ol. Y safle anghredadwy hon oedd yn parhau i fod yn safle yr eglwys. Gair y bobl i'r eglwys oedd—Ydych chi ddim wedi *delivro'r goods*.

Wrth derfynu, fe ddywedodd y pregethwr ei fod weithiau yn dymuno pe gallai anghofio fod yna Bab, anghofio bodolaeth y namyn un Erthygl deugain, a chofio dim ond un peth—Duw. Dymunai pe gallai anghofio pob duwinyddiaeth, ac yn unig cofio crefydd.

Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus llwyddianus, lluosog, a rhoddwyd groesaw i weinidog newydd Highland Place, Aberdar—y Parch. Harry Andrew, Cefncoed yn bresennol, hyd nes caffo dŷ yn Aberdar.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Chwarterol Cymdeithas Undodaidd De Cymru yng Nghapel y Graig, Llandysul, Ebrill 19 a 20. Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fercher gan y Parch. E. O. Jenkins, y Llwyn, a phregethwyd gan y Parch. Lewis Williams, Alltyplaca. Bore Iau, cyfarfyddodd Pwyllgor y Gymdeithas. Gweler isod adroddiad o'i weithrediadau gan yr ysgrifennydd. Dechreuwyd y gwasanaeth cyntaf bore Iau gan, erbyn hyn, y diweddar Hybarch John Davies, Alltyplaca. Ychydig feddyliom mai hwn fuasai y tro olaf i lawer o'i hen gyfeillion i'w glywed a'i weld. Mae'r gwys wedi myned allan i'r talar, a diwrnod da o waith wedi ei orffen ganddo Yna traddodwyd pregeth amserol gan y Parch. David Evans, Cribyn, ar "Hyfforddiant y Plentyn." Yn y prynhawn dechreuwyd gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, a phregethwyd gan y Parchn. D. Conwil Evans, Rhydygwin, ac E. R. Dennis, Aberdar. Yn yr hwyr, arweiniwyd yn y rhannau defosiynol gan y Parch. Lewis Williams, a phregethwyd gan y Parchn. T. Oswald Williams, B.A., Llanbedr, ac E. O. Jenkins, y Llwyn. Trodd y cyfarfodydd allan yn llwyddiannus ymhob ystyr. Gwnaeth Eglwys y Graig, yn ol ei harfer, ei rhan i roesawu y dieithriaid o fewn y porth, ac hyderwn y bydd bendithion amlwg yn dilyn y cyfarfodydd.

PWYLLGOR Y PASC, 1922.

Cynhaliwyd yr uchod yng nghapel

y Graig, Llandyssul, boie Iau, Ebrill 20. Yn absenoldeb y Llywydd ac Is-lywydd cymerwyd y gadair gan Mr. Josiah R. Jones, Garthowen. Darllenwyd a derbyniwyd y cofnodion fel adroddiad cywir o weithrediadau y Pwyllgor blaenorol. Ar gynygiad y Parch. D. Conwil Evans, pasiwyd fod lleygwyr yn ogystal a gweinidog i gynrychioli y Gymdeithas yn nghyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor. Etholwyd y Parch. T. A. Thomas a Mr. Josiah R Jones yn gynrychiolwyr i gyfarfodydd eleni ac awgrymwyd y disgwylid i Mr. Jones wneud adroddiad o'r daith yn y Pwyllgor Blynyddol. Ar gynygiad y Parch. T. A. Thomas pasiwyd fod yr ysgrifenydd i gyflwyno i ysgrifenydd y Gymdeithas Undodaidd Americanaidd benderfyniad yn datgan mai barn y pwyllgor hwn ydyw mai gwell fuasai gosod y "maen-coffa" i'r diweddar Barch. Jenkin Lloyd Jones yn mur capel Pantdefaid nag yn Mlaenrallddu, lle y ganed ef, fel yr oedd y cyfeillion Americanaidd wedi bwriadu. Gadawyd y mater o ddewis lle cynhaliad y cyfarfodydd Blynyddol i'r ysgrifenydd. Pasiwyd fod *grant* o £10 i gael ei gwneud o "Drysorfa y Bobl Ieuainc" i ddyn ieuanc o Aberiawe sy'n parotoi ei hun i'r weinidogaeth ar y telerau fod y S. E. W. U. Association yn gwneud *grant* cyffelyb

MARWGOFION.

MAWRTH 28ain, yn 92 mlwydd oed, bu farw Catherine Owen, Holly Bush, Ram, Pencarreg. Yr oedd wedi gweld dyddiau hir, a chenedlaethau'n mynd a hithau'n aros. Yr oedd wedi'i breintio a chorff iach, a meddwl clir, a chalon wrol, a chadwodd yn wisgi bron i'w blynyddoedd olaf. Yr oedd wedi cadw'i gafael yn dŷn yn Nuw, a suddodd yn yr angau heb ofni un niwed. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym medd ei phriod ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac ar lan y bedd gan y Parch. Evan Evans, a phregethwyd yn y capel gan y Parch. T. O Williams. Gadawodd ddau fab a llu o berthynasau mewn dagrau ar ei hol.

EBRILL 3, yn 33 mlwydd oed, bu farw David Davies (mab hynaf Maer a Maeres Llanbedr) yn Crumlin Glowr ydoedd wrth ei alwedigaeth, a thra dilynai'i waith ynglofa'r Oakdale daeth cwymp gan ei ladd ar amrantiad. Yr oedd yma ei's blynyddoedd bellach, ac wedi ennill iddo'i hun air da yn yr ardal a chan ei gydnabod fel gweithiwr diwyd a gonest, fel priod hynaws a thad caredig. Y Y dydd Sadwrn dilynol aeth cynifer fechan o honom o Lanbedr i dalu'r gymwynas olaf iddo. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Mr. Jones (gweinidog y Bedyddwyr Saesneg), a T. O. Williams, ac yng nghapel y Gladdfa Gyhoeddus, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams. Cafodd gynhebrwng deilwng iawn. Prynhawn Sul, Ebrill 23ain, ynghapel Brondeifi traddodwyd ei bregeth goffa i glyw torfenfawr gan y Gweinidog oddiar y geiriau: "Y cwymp a fu fawr, ac yntau'n marw yn ei gyflawn nerth, ac efe yn wr tawel ac heddychlon yn gwbl." Gadawodd briod ieuanc ac un ferch fach, tad a mam, brodyr a chwiorydd, a llu o berthynasau i wylo'n gymhedrol am un oedd yn annwyl iawn iddynt.

EBRILL 16, yn ddwy flwydd oed, bu farw Irma Gates, merch Mr. a Mrs. Gates, ac wyres Mr. a Mrs. Hefin Williams, Glaslwyn, Llanbedr, wedi brwydr galed am ei bywyd. Hi oedd cannwyll llygad ei thadcu a'i mamgu, ond diffoddodd y gannwyll fach yn ngynnar, gynnar. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Brondeifi (anghyhoedd), a gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams.

EBRILL 14, bu farw Mr. Rees Price, General Dealer, Gadlys Road, Trecynon, yn 72 oed. Bu yn un o ffyddloniaid yr Hen Dy Cwrdd. Dydd Llun, Ebrill 3, bu etholiad y Cynghor Dosbarth yn Nhrecynon, ac aeth Mr. Price i bleidleisio, ond ar ei ffordd adref darfu iddo gwympo oherwydd yr eira, a thorodd ei goes. Cymerwyd ef i'r Hospital y dydd Gwener canlynol, a gwelwyd ei fod mewn cyflwr gwael, a bu farw ymhen yr wythnos. Gedy weddw a thri o blant, oll wedi tyfu i oedran, ar ei ol. Claddwyd dydd Mawrth, Ebrill 18, ym mynwent eglwys Penderyn. Daeth yr Hybarch R. J. Jones, M.A. i'r tŷ, a gwasanaethwyd yno gan y Parch. E. R. Dennis, ac yn yr Eglwys gan y Ficer. Estynwn i'r weddw ac i'r plant ein cydymdeimlad llwyraf.

EBRILL 28, yn 66 mlwydd oed, bu farw Sarah Davies, Tynewydd Gyfeile, gynt o Cefngwallter. Bu yr ymadawedig yn wael am amser hir, a dioddefodd gystudd caled iawn. Merch ydoedd i'r diweddar James Davies, Cefngwallter, ac nid oedd ond tua blwyddyn a hanner er pan ymadawodd hi a'i chwaer oddiyno ac yr aethant i'r cartref uchod, lle y bu farw. Yr oedd hi yn un o aelodau ffyddlonaf Pantdefaid. Er hired ei llwybr, cyhyd ag y parhaodd ei hiechyd anfynych y byddai ei lle hi yn wag. Deallwn ei bod wedi gadael cymunrodd o £20 i'r eglwys. Gadawodd mewn galar o'i cholli un mab, brodyr a chwioryd, ac amryw berthynasau eraill. Y dydd Mercher dilynol hebryngwyd ei rhan farwol i fynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd gan y gweinidog, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. Lewis Williams, Alltyplaca; George Davies, Pisgah, ac R. H. Williams, Carmel.

MAI 5ed, yn 19 mlwydd oed, bu farw Llewelyn, mab Mr. a Mrs. Lewis D. Jones, Glandulas Terrace, Llanbedr, wedi dihoeni'n hir. Gafaelodd 'pla y dyn gwyn' ynddo rhyw ddwy flynedd yn ol, ac ni ollyngodd mo'i afael. Aeth i Iechydfa Tregaron yr Hydref diweddaf, ond yn ofer neu'n rhy ddiweddar. Caethiwwyd ef i'w wely yno, a dychwelodd i'w gartref yn nyddiau'r Nadolig. Cadwodd i'w wely nes iddo gael ei ollwng adref. Bachgen caredig a thyner galon ydoedd, ac y mae cydymdeimlad llwyraf y dref gyda Mr. a Mrs. Jones o golli'r mab hwn eto. Nid oes flynyddoedd hir er claddu Blethyn. Y dydd Mawrth dilynol, gosodwyd ei weddillion marwol i orwedd ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, B.A., a'r angladd yn anghyhoedd. Brynhawn Sul, Mai 21, traddodwyd ei bregeth goffa ym Mrondeifi, gan y Gweinidog, i glyw torf o wrandawyr, oddiar y geiriau, 'O na buaswn farw drosot ti,' 'Dyma orffwys . . i'r blinedig a dyma'r adfywio.' Gadawodd dad a mam, dwy chwaer, a pherthynasau ereill i wylo o'i golli mor gynnar.

MAI 5ed, yn 94 mlwydd oed, bu farw Timothy Jenkins, Felinrhiwbren, Dihewyd, ac wrth hyn collwyd o'r ardal un o'r cymeriadau, nid yn unig hynaf, ond hefyd y mwyaf gwreiddiol mewn mwy nag un ystyr. Yr oedd yn ddyn o argyhoeddiadau dwfn, yn feddiannol ar feddwl clir, ac yn meddu ar ddigon o gryfder personoliaeth i ddweyd ei feddwl yn onest ac agored. Yr oedd er's rhai blynyddoedd wedi methu a myned fawr o gwmpas oherwydd methiant corfforol, eto yr oedd ei feddwl mor fyw a chrâff yn y blynyddoedd diweddaf hyn ag y bu erioed. Am flynyddoedd meithion bu ef a theulu lluosog yn ffyddlon iawn yng Nghapel Ciliau, a cherddodd lwybr maith a garw o Sul i Sul o sêl dros

egwyddorion ei grefydd, yr hon yn ei ffordd syml ei hun a ymdrechodd ei byw yn ei holl gysylltiadau a thrwy ymdrechion caled bywyd eithriadol o hir. Collodd ei briod a chydmar ffyddlon ei fywyd flynyddoedd yn ol, ac yng nghyfnod ei fethiant felly cafodd bob gofal a thynerwch ei ddwy ferch a'i ddau fab gartref. Dydd Mercher, y 10fed, claddwyd ei weddillion ym mynwent Llanerchayron, pryd y daeth tyrfa fawr ynghyd i dalu eu gwarogaeth olaf i gymeriad unplyg. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Conwil Evans, y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Lewis Williams, Alltyplaca, a J. Thomas, Llwyncelyn. Yn yr Eglwys ac yn y fynwent gwasanaethwyd gan Offeiriad y plwyf. Cydymdeimlwn a'r teulu a'r perthynasau oll yn eu hiraeth a'u galar.

MANION AC HANESION.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL — Cynhelir yr uchod ym Mrondeifi, Llanbedr, dechreu Awst. Ymddengys manylion pellach eto.

CAPEL-Y-FADFA.—Cynhelir Bazaar fawreddog yn y lle uchod prydnawn dydd Mercher, Mehefin 28, 1922. Agorir y Bazaar am 2 o'r gloch, gan Mrs. James, Brynhyfryd. Cadeiryddion—Inspector Thomas, Llandyssul. Darperir lluniaeth am bris rhesymol. Yr elw at y Drysorfa Adeiladu.

CILIAU.—Ar y 4ydd o Fai perfformiwyd yn llwyddianus iawn y ddwy ddrama ganlynol gan barti dramayddol Capel Ciliau Aeron, a pharti dramayddol Mydroilyn. Cawd gan y blaenaf ddrama a elwir "Talu'r gymwynas," gan Mr. T. Jones, Llanrug; a'r ail, "Wel! Wel! dyna hi," gan y Parch. E. O. Jenkins. Credwn fod dyfodol disglaer i'r ddau barti yma os y gwnant barhau yn y gwaith da yma, oherwydd iddynt fyned drwy eu gwaith yn rhyfeddol iawn, ac nid oedd yr un cymeriad gwan yn eu plith, a phob un o honynt wedi meistroli ei ran yn rhagorol iawn. Daeth tyrfa anferth ynghyd, ac hawdd ydoedd canfod pan oedd yr actio yn myned yn y blaen fod pob un yn mwynhau ei hun ac yn gwerthfawrogi ymdrechion y ddau barti. Heb wneud gwahaniaeth rhwng y gwahanol gymeriadau digon yw dyweyd i bawb fyned adref o'r cyfarfod wedi llwyr fwynhau, a dysgu y ddwy wers bwysig a osodir allan gan y ddwy ddrama. Aed y ddau barti yma rhag eu blaen ydyw dymuniad dyffryn Aeron.

RHYDYGWIN.—Da iawn fydd gan gyfeillion a chydnabyddion Miss C. E. Jones, Aldergate, Felinfach, glywed am ei llwyddiant yn ddiweddar yn ennill y Bathodyn Arian a Thystysgrif yn yr Universal Cookery and Food Exhibition, a gafodd ei chynal yn y Royal Horticultural Hall, Westminster. Y mae Miss Jones yn Nurse yn Brompton Hospital, Llundain, ac ennillodd yr uchod mewn perthynas ag "Invalid Cookery," &c. Llongyfarchwn hi ar ei llwyddiant, a dymunwn bob rhwyddineb yn y dyfodol i'r Nurse o Felinfach.

(*Ymddengys yn y rhifyn nesaf amryw Farwgofion ac Hanesion a adawyd allan oherwydd prinder gofod y tro hwn.*)

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

Just Published by THE LINDSEY PRESS.

The New Testament & Modern Life

By S. H. MELLONE, M.A., D.Sc.

Cr. 8vo. 280 p.p. Cloth, 6/- net.

Prof. JAMES MOFFAT, M.A., D.Litt., writing in the *British Weekly*, says:—"It is a genuine pleasure to read Dr. S. H. Mellone's new book . . . he applies critical judgment to the records, and combines with it a fine moral judgment, which enables him to present positive results. . . . I call it without hesitation a good book, not because it always convinces, but because its method is so trustworthy, and its outlook so sane."

The *Times Literary Supplement* speaks of Dr. Mellone's book as "an acute and scholarly study," and the *Glasgow Herald* describes it as "both a live and a learned book."

In this book the author's endeavour has been to indicate as concisely and as clearly as possible the ethical import of the most significant parts of the New Testament, and the directions in which the resulting principles bear upon modern life and civilisation.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, . . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

LONDON [illegible]T CITY AND MIDLAN[illegible]ANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

Frederick Hyde **Edgar W. Woolley**

Subscribed Capital	.. ..	**£38,117,103**
Paid-up Capital	.. ..	**10,860,852**
Reserve Fund	.. ..	**10,860,852**
Deposits *(Dec. 31st, 1921)*	..	**375,117,092**

Llandyssul Office: 9, Lincoln Street

Manager*: *T. M. JONES

Over 1,600 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2